Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Ardrethu Annomestig
Cynnig i newid Rhestr Ardrethu 2005

NODIADAU CANLLAW AR GYFER CWBLHAU FFURFLEN VO 7012 (2005)W

Gellir apelio naill ai yn erbyn cofnod presennol mewn rhestr ardrethu neu i gynnwys eiddo mewn rhestr ardrethu. Gwneir apêl drwy wneud cynnig i newid rhestr ardrethu. Mae'r gyfraith yn nodi'r rhesymau neu'r sail dros wneud cynnig ynghyd â'r wybodaeth y dylid ei chynnwys. Ni cheir ffurflen o dan y gyfraith ar gyfer gwneud cynnig, ond mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi llunio ffurflen VO 7012 (2005) sy'n golygu, os caiff ei chwblhau'n llawn, y dylid bodloni'r holl ofynion cyfreithiol.

Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi digon o wybodaeth am yr eiddo a'r cofnod(ion) presennol mewn rhestr ardrethu sy'n berthnasol i'r cynnig er mwyn galluogi'r swyddog prisio i'w nodi'n gywir. Os na fyddwch yn ateb pob rhan yn llawn, efallai na fydd eich cynnig yn ddilys.

Pan fod eich cynnig yn ymwneud â mwy nag un eiddo/cofnod defnyddiwch y ffurflen ar gyfer un eiddo a chofnodwch fanylion pob eiddo arall neu gofnodion eraill ar ddalen o bapur ar wahân, a dylech wedyn ei hatodi wrth y ffurflen gynnig.

Os oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd gallwch gwblhau cynnig at y rhan fwyaf o ddibenion ar-lein yn www.voa.gov.uk. Mantais hyn yw y gallwch sicrhau bod eich cynnig yn ymwneud â'r cofnod cywir mewn rhestr a gallwch gael neges e-bost bron ar unwaith yn cydnabod ei fod wedi'i dderbyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cwblhau'r ffurflen, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill yr hoffech eu gwneud, ffoniwch eich Swyddfa Brisio leol (a nodir yn y llyfr ffôn o dan 'Valuation Office') a bydd aelod o'n staff yn barod i'ch helpu. Mae rhagor o fanylion am y rhestr ardrethu a'r system ardrethu hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.voa.gov.uk ac mewn taflen ar wahân sydd ar gael o unrhyw Swyddfa Brisio.

Pwy all wneud cynnig:

I bob pwrpas, dim ond y perchennog neu'r deiliad, neu bersonau â buddiannau cyfreithiol penodol yn yr eiddo dan sylw ar y dyddiad y caiff y cynnig ei wneud, sydd â'r hawl hon. Yn ogystal, gall trethdalwyr blaenorol yr eiddo sy'n dymuno herio newid a wnaed i restr ardrethu gan y swyddog prisio am gyfnod pan mai hwy oedd y trethdalwr, ac mewn rhai amgylchiadau yr awdurdod bilio, wneud cynnig hefyd.

Cyfyngiadau amser ar gyfer gwneud cynnig:

Yn gyffredinol, rhaid gwneud cynnig cyn 1 Ebrill 2010.

Gallwch wneud cynnig oherwydd newid i'r eiddo neu'r gymdogaeth (newid perthnasol mewn amgylchiadau). Mae'n bwysig cofio y gall unrhyw newid i restr ardrethu o ganlyniad i gynnig ond adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n bodoli ar y diwrnod y cyflwynir y cynnig i'r swyddog prisio. Er enghraifft, os gwnewch gynnig mewn perthynas â gwaith ffordd mawr a bod y gwaith wedi dod i ben erbyn i'r swyddog prisio dderbyn y cynnig, ni ellir newid yr asesiad am unrhyw amhariaeth a achoswyd tra bod y gwaith yn mynd rhagddo. Felly, dylid gwneud unrhyw gynnig cyn gynted â phosibl ar ôl i'r newid perthnasol ddigwydd neu ar ôl i'r gwaith ddechrau. Gall y swyddog prisio newid y rhestr hyd yn oed os na ellir gwneud cynnig, er na fyddech yn gallu cyfeirio'r mater at dribiwnlys prisio os nad oedd y swyddog prisio yn cytuno â newid.

Rhaid gwneud cynnig a wnaed oherwydd penderfyniad tribiwnlys prisio, y Tribiwnlys Tir neu lys uwch mewn perthynas ag eiddo arall, o fewn 6 mis i'r adeg y rhoddir y penderfyniad a heb fod yn hwyrach na 30 Medi 2010.

Cyflwyno cynigion:

Rhaid i chi gyflwyno cynnig i'r swyddog prisio sy'n gyfrifol am y rhestr ardrethu sy'n cynnwys, neu a fydd yn cynnwys os yn newydd, yr eiddo y mae eich cynnig yn gysylltiedig ag ef. Gallwch wneud hyn drwy ei anfon drwy'r post at y swyddog prisio yng nghyfeiriad y swyddfa, neu fynd ag ef yno'n bersonol. Fel arall, gallwch gyflwyno'r cynnig dros y ffacs neu'r e-bost gan ddefnyddio'r rhif ffacs neu'r cyfeiriad e-bost a nodir ar gyfer cyflwyno cynnig i'r swyddog prisio, neu gallwch gwblhau a chyflwyno cynnig ar-lein o wefan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

NODER bod pob gwerth ardrethol yn seiliedig ar y rhent blynyddol y gellid bod wedi gosod yr eiddo'n rhesymol ar 1 Ebrill 2003. Ni fydd unrhyw newidiadau cyffredinol yn y farchnad rhentu ers hynny, boed hynny i fyny neu i lawr, yn effeithio ar ei werth ardrethol.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb y mae'n delio â hwy. Nodir y safonau gwasanaeth y gallwch eu disgwyl yn Siartr yr Asiantaeth. Gallwch gael copi am ddim o unrhyw Swyddfa Brisio.

RHAN A - Manylion yr eiddo / asesiad ardrethu:

1 Nodwch gyfeiriad llawn yr eiddo fel y mae'n ymddangos yn y rhestr ardrethu, neu'r cyfeiriad y dylid ei nodi, yn eich barn chi, os ydych yn cynnig cofnod newydd (gweler blwch **14**). Os yw'r cyfeiriad presennol a nodir yn y rhestr ardrethu yn anghywir, nodwch hefyd y cyfeiriad llawn cywir yma (neu defnyddiwch flwch 16 **Rhan C** y ffurflen os nad oes digon o le).

2 Rhowch ddisgrifiad o'r eiddo e.e. *"Siop ac eiddo"*. Dangosir hyn yng ngholofn 2 y rhestr ardrethu ac ar "Hysbysiad o Newid" a ddosberthir gan y swyddog prisio. Efallai y bydd hefyd yn cael ei nodi ar eich bil ardrethi.

3 Nodwch enw deiliad presennol yr eiddo a ddangosir yn **1** ar y ffurflen. Os nad oes neb yn meddiannu'r eiddo nodwch *"Gwag"*.

4 Dylid darparu cyfeiriad llawn deiliad yr eiddo yma os yw'n wahanol i'r hyn a ddangosir yn **1** ar y ffurflen. Fel arall, nodwch *"fel 1"*.

5 Nodwch werth ardrethol yr eiddo y mae eich cynnig yn ymwneud ag ef. Dangosir y gwerth ardrethol yng ngholofn 5 y rhestr ardrethu, ar "Hysbysiad o Newid" a ddosberthir gan y swyddog prisio a hefyd ar y bil ardrethi.

6 Y dyddiad y daw i rym yw'r dyddiad y mae atebolrwydd newydd neu ddiwygiedig dros dalu ardrethi yn dechrau. Nodwch y dyddiad a ddangosir yn y rhestr ardrethu neu "Hysbysiad o Newid" a ddosberthir gan y swyddog prisio. Os yw'r cynnig yn ymwneud â'r cofnod gwreiddiol a ddangosir mewn rhestr ardrethu *"01-04-2005"* fydd hyn. Os byddwch yn anghytuno â'r dyddiad y daw i rym nodwch hyn yn **Rhan B** y ffurflen.

7 Os mai'r perchennog yw deiliad yr eiddo ticiwch y blwch **"Perchennog/Deiliad"**. Os na, nodwch enw perchennog yr eiddo yn y man gwag a ddarperir.

8 Dim ond os yw'n wahanol i'r hyn a ddangosir ar gyfer **1** a **4** y dylid nodi cyfeiriad llawn y perchennog. Fel arall, nodwch *"fel 1"* neu *"fel 4"* fel y bo'n briodol.

9 Os nad perchennog yr eiddo yw ei ddeiliad, a bod rhent neu ffi drwydded yn cael eu talu, rhaid i chi dicio'r blwch **"Oes"** a nodi'r swm cyfredol a delir bob blwyddyn (heb gynnwys ardrethi, taliadau gwasanaeth a TAW, os yw'n briodol). Er nad yw'n orfodol, gallwch hefyd nodi'r dyddiad y talwyd y rhent hwn gyntaf (fel arfer pan ddechreuodd y brydles neu'r cytundeb neu pan gynhaliwyd adolygiad rhent dilynol), a'r dyddiad y bwriedir adolygu'r rhent nesaf. Os mai rhent rhad a delir neu os ydych mewn cyfnod di-rent ar hyn o bryd, nodwch hyn yn y blwch **"rhent blynyddol cyfredol"**. Efallai y bydd y swyddog prisio yn anfon hysbysiad statudol atoch yn gofyn am fwy o fanylion am y rhent, a bydd yn rhaid i chi ei gwblhau.

10 Nodwch enw'r awdurdod bilio, sy'n casglu'r ardrethi ar yr eiddo. Efallai y bydd enw'r awdurdod bilio hefyd i'w weld ar eich bil ardrethi.

11 Nodwch rif cyfeirnod yr asesiad (os yw'n hysbys). Dangosir hyn yng ngholofn 1 y rhestr ardrethu ac ar "Hysbysiad o Newid" a ddosberthir gan y swyddog prisio. Efallai y bydd yn ymddangos ar eich bil ardrethi.

12 Rhif NLPG UPRN yw "Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw Mynegai Daearyddol Tir ac Eiddo Cenedlaethol". Os ydych yn gwybod rhif yr eiddo dylech ei gynnwys. Os nad ydych yn ei wybod, yna gadewch y blwch yn wag.

RHAN B - Manylion y newid arfaethedig i'r rhestr:

Dylid defnyddio'r rhan hon o'r ffurflen i gofnodi natur y newid a gynigir i restr ardrethu. Cwblhewch **Adran 13** os yw eich cynnig yn ymwneud â chofnod presennol mewn rhestr ardrethu, neu **Adran 14** os yw'n ymwneud â chofnod newydd (hynny yw cofnod nas dangosir mewn rhestr ardrethu ar hyn o bryd).

13 Mae'r gyfres o flychau ticio **A i E** yn nodi llawer o'r newidiadau mwyaf cyffredin a wneir. Ticiwch un o'r blychau **A-F** yn unig. Er mwyn sicrhau bod y cynnig yn bodloni'r isafswm gofynion dilysrwydd rhaid i chi hefyd gwblhau pob blwch ychwanegol yn yr un rhes. Er enghraifft:

Os ydych yn cynnig newid i'r gwerth ardrethol, yna yn ogystal â thicio blwch **A**, rhaid i chi hefyd ddangos swm y gwerth ardrethol y credwch sy'n briodol, a'r dyddiad y credwch y dylai fod wedi dod i rym.
Os mai'r dyddiad y daeth newid a wnaed gan swyddog prisio i rym yw'r unig fater yr ydych am anghytuno arno, cwblhewch **E**.
Os na ddisgrifir y newid rydych am ei wneud yn **13A-E** neu **14** defnyddiwch y blwch "newidiadau eraill" yn **13F**: gan nodi'r union newid rydych yn ei gynnig. Nodwch hefyd y dyddiad y credwch y dylai'r newid arfaethedig ddod i rym.
Isod ceir rhai enghreifftiau i'ch helpu i gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen.

Enghraifft 1
Os ydych o'r farn bod y gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ardrethu ar 1af Ebrill 2005 yn ormodol dylech dicio blwch **A**, gan gynnwys y gwerth y credwch chi sy'n gywir yn y blwch nesaf, a nodi *"01-04-2005"* ym mlwch olaf y rhes.
Enghraifft 2
Os ydych yn apelio am fod "newid perthnasol mewn amgylchiadau" wedi digwydd h.y. newid ffisegol i'r eiddo neu'r gymdogaeth; bydd angen i chi dicio blwch **A** a nodi effaith hynny ar y gwerth ardrethol. Hefyd, yn y blwch **"daeth i rym"**, dylech nodi'r dyddiad y credwch y digwyddodd y newid e.e. dylid nodi 10fed Mai 2005 fel *"10-05-2005"*.

RHAN B - Parhad:

Enghraifft 3
Os nad ydych yn credu bod yr eiddo'n ardrethol bellach e.e. mae siop wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac yn cael ei defnyddio at ddibenion cwbl ddomestig, ticiwch Flwch **B** ac yn y blwch nesaf rhowch y dyddiad y credwch fod y newid wedi digwydd.

Enghraifft 4
Os ydych o'r farn y dylid dangos dau gofnod neu fwy sydd ar wahân yn y rhestr fel un neu fwy o wahanol gofnodion, efallai am fod rhan o un eiddo wedi'i meddiannu gydag eiddo gwahanol erbyn hyn, ticiwch flwch **D** a nodwch nifer y cofnodion presennol a nifer y cofnodion newydd y credwch sy'n briodol. Rhaid i chi hefyd nodi'r dyddiad y digwyddodd y newid o ran meddiannaeth.

Os ydych yn ceisio gwneud mwy nag un newid i restr ardrethu, megis pan fo pob newid arfaethedig yn ymwneud â digwyddiadau gwahanol mewn amser, dylech ddefnyddio ffurflen gynnig ar wahân ar gyfer pob digwyddiad. Er enghraifft, os ydych yn (a) anghytuno ar newid i restr ardrethu a wnaed gan y swyddog prisio ar 1 Mai 2005 (i gynyddu'r gwerth ardrethol) a (b) ceisio cael gostyngiad ar sail "newid perthnasol mewn amgylchiadau" a ddigwyddodd ar 10 Mehefin 2005, defnyddiwch ffurflenni cynnig ar wahân ar gyfer pob newid arfaethedig i restr.

14 Dim ond os ydych yn cynnig dangos cofnod newydd yn y rhestr ardrethu ar gyfer yr eiddo a nodir yn **Rhan A** y dylech gwblhau'r adran hon.

RHAN C - Rhesymau dros eich newid arfaethedig:

15 Er mwyn eich cynorthwyo i ddewis y rhesymau cywir dros eich cynnig, mae 12 opsiwn i'w ticio ar y ffurflen. Crynodebau yw'r rhain a grëwyd gennym er mwyn eu hegluro i chi. Maent yn deillio o'r 15 rheswm, a nodir yn y gyfraith, sy'n caniatáu i chi gynnig newid y rhestr ardrethu. Er gwybodaeth, ceir cyfieithiad o'r union ddatganiadau o'r rhesymau a nodir yn y gyfraith isod. Bydd y rhif a'r llythyren mewn cromfachau yn cyfateb â'r rhai a nodir yn y golofn ar ochr dde'r dudalen yn **Rhan C**, cwestiwn **15** ar eich ffurflen. Noder bod y term "eiddo etifeddol (hereditament)" yn cyfeirio at eiddo a fyddai'n ffurfio cofnod ar wahân mewn rhestr ardrethu.

Rhesymau o dan y Gyfraith: Gallwch wneud cynnig os..

(a) roedd y gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol yn anghywir ar y diwrnod y lluniwyd y rhestr;

(b) mae'r gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol yn anghywir am fod newid perthnasol mewn amgylchiadau wedi digwydd ar neu ar ôl y diwrnod y lluniwyd y rhestr;

(c) mae'r gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol yn anghywir am fod newid wedi digwydd i'r dosbarthiadau o beiriannau a pheirianwaith a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Lloegr) 2000, sy'n dod i rym ar neu ar ôl y diwrnod y lluniwyd y rhestr;

(d) mae'r gwerth ardrethol a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol o ganlyniad i newid a wnaed gan swyddog prisio yn anghywir neu wedi bod yn anghywir;

(e) mae'r gwerth ardrethol neu unrhyw wybodaeth arall a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol, o ganlyniad i benderfyniad tribiwnlys prisio, y Tribiwnlys Tir neu lys sy'n penderfynu ar apêl neu gais i dribiwnlys prisio neu'r Tribiwnlys Tir adolygu cynnig mewn perthynas ag eiddo etifeddol arall, yn anghywir neu wedi bod yn anghywir;

(f) mae'r diwrnod y daeth newid i rym a ddangosir yn y rhestr yn anghywir;

(g) dylid dangos eiddo etifeddol nas dangosir yn y rhestr yn y rhestr honno;

(h) ni ddylid dangos eiddo etifeddol a ddangosir yn y rhestr yn y rhestr honno;

(i) dylai'r rhestr ddangos bod rhan o eiddo etifeddol a ddangosir yn y rhestr yn eiddo domestig neu wedi'i eithrio rhag ardrethu annomestig ond nid yw'n gwneud hynny;

(j) ni ddylai'r rhestr ddangos bod rhan o eiddo etifeddol a ddangosir yn y rhestr yn eiddo domestig neu wedi'i eithrio rhag ardrethu annomestig ond mae'n gwneud hynny;

(k) dylid dangos eiddo a ddangosir yn y rhestr fel mwy nag un eiddo etifeddol fel un eiddo etifeddol gwahanol neu fwy;

(l) dylid dangos eiddo a ddangosir yn y rhestr fel un eiddo etifeddol fel mwy nag un eiddo etifeddol;

(m) mae'r cyfeiriad a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol yn anghywir;

(n) mae'r disgrifiad a ddangosir yn y rhestr ar gyfer eiddo etifeddol yn anghywir; ac

(o) mae unrhyw ddatganiad y mae angen ei wneud ynghylch yr eiddo etifeddol o dan adran 42 y Ddeddf wedi'i hepgor o'r rhestr.

Opsiynau blychau ticio ar y ffurflen: Rhoddir 12 o grynodebau blychau ticio, a restrir **A-L** yn **Rhan C**, cwestiwn **15** ar eich ffurflen. Dylech ond dewis **UN** datganiad sy'n disgrifio pam eich bod yn cynnig y newid rydych wedi'i ddangos yn **Rhan B** orau. Gallwch ddewis dau reswm neu fwy mewn rhai amgylchiadau - cysylltwch â'r swyddog prisio i gael cyngor os hoffech wneud hyn. Fe'ch anogir i groes-wirio bod yr opsiwn blwch ticio rydych wedi'i ddewis yn cyfateb â'r datganiad priodol o'r gyfraith, a ddangosir uchod er mwyn sicrhau eich bod yn dewis y rhesymau cywir dros eich cynnig. Nodir rhagor o enghreifftiau pam y gallech ddewis opsiwn blwch ticio penodol dros y dudalen. Dewiswch un o'r canlynol:

RHAN C - Parhad:

Blwch A os credwch fod gwerth(oedd) ardrethol mewn rhestr ardrethu ar 1 Ebrill 2005 yn anghywir. Peidiwch â dewis y rheswm hwn os nodwyd y cofnod perthnasol yn y rhestr ardrethu ar ôl 1 Ebrill 2005 hyd yn oes os daeth i rym ar y diwrnod hwnnw, dewiswch Flwch B yn ei le.

Blwch B os ydych yn anghytuno ar gywirdeb gwerth ardrethol cofnod yn dilyn newid a wnaed gan y swyddog prisio. Dylech hefyd nodi'r dyddiad y gwnaed y newid. DS dangosir y dyddiad hwn yn yr "Atodlen o Newidiadau" berthnasol (a gedwir gyda rhestr ardrethu yn swyddfeydd yr awdurdod bilio) ac yn yr "Hysbysiad o Newid" cyfatebol a ddosberthir gan y swyddog prisio. (Os ydych hefyd yn anghytuno â'r dyddiad y daeth y newid i rym dylech dicio blwch **C** a nodi'r dyddiad y credwch sy'n briodol ym mlwch **16**).

Blwch C os nad ydych yn anghytuno ar gywirdeb asesiad a wnaed gan y swyddog prisio ond yn anghytuno â'r dyddiad y daeth i rym ac am roi'r dyddiad rydych wedi'i nodi yn **Rhan B**, Adran **13E** yn ei le. Dylech hefyd nodi'r dyddiad y gwnaed y newid gan y swyddog prisio. DS dangosir y dyddiad hwn yn yr "Atodlen o Newidiadau" berthnasol (a gedwir gyda rhestr ardrethu yn swyddfeydd yr awdurdod bilio) ac yn yr "Hysbysiad o Newid" cyfatebol a ddosberthir gan y swyddog prisio.

Blwch D os credwch fod y gwerth ardrethol yn anghywir am fod newid perthnasol mewn amgylchiadau wedi digwydd (h.y. newid ffisegol i'r eiddo neu'r gymdogaeth) neu am fod rhan o'r eiddo wedi dod, neu wedi peidio â bod yn eiddo domestig, neu ei fod wedi'i eithrio rhag atebolrwydd. Dylech nodi'r dyddiad y newidiodd yr amgylchiadau yn y man gwag a ddarperir ar gyfer hynny. DS dylech hefyd fod wedi nodi eich barn ynghylch effaith y newid ar y gwerth ardrethol yn Adran **13 RHAN B**.

Blwch E os credwch y dylid dileu'r cofnod yn y rhestr ardrethu am fod yr eiddo wedi'i ddymchwel neu am nad yw'n bodoli bellach.

Blwch F os credwch y dylid dileu'r cofnod yn y rhestr ardrethu oherwydd efallai bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl yn gyfan gwbl erbyn hyn neu ei fod wedi'i eithrio rhag ardrethu e.e. adeilad amaethyddol ydyw bellach.

Blwch G os credwch y dylid dileu cofnod mewn rhestr ardrethu am reswm heblaw am **15E** neu **15F** e.e. mae cofnod yn ymddangos yn y rhestr anghywir o ganlyniad i newid ffin awdurdod lleol.

Blwch H os dangosir yr eiddo mewn rhestr ardrethu fel un asesiad ar hyn o bryd a'ch bod o'r farn y dylid ei ddangos fel dau asesiad neu fwy, h.y. mae'n ffurfio dwy ran ar wahân neu fwy.

Blwch I os credwch y dylid cyfuno dau asesiad presennol neu fwy yn un asesiad h.y. bod yr holl eiddo o fewn yr un feddiannaeth, neu os yw'n ffurfio dau asesiad gwahanol neu fwy o blith y rhai a ddangosir mewn rhestr ardrethu.

Blwch J os ydych yn cynnig cynnwys eiddo mewn rhestr ardrethu nad yw'n cael ei ddangos yn y rhestr honno ar hyn o bryd.

Blwch K os credwch fod y cofnod a ddangosir mewn rhestr ardrethu yn anghywir yng ngoleuni penderfyniad gan Dribiwnlys neu Lys sy'n gysylltiedig ag eiddo arall. Rhaid i chi nodi dyddiad y penderfyniad, enw'r Tribiwnlys/Llys a chyfeiriad yr eiddo y mae'r penderfyniad yn gysylltiedig ag ef. Rhaid i chi hefyd nodi eich rhesymau dros gredu bod y penderfyniad yn berthnasol i'r cofnod yn y rhestr y mae eich eiddo yn gysylltiedig ag ef h.y. yr eiddo a nodir yn **Rhan A** a'r rheswm pam, yng ngoleuni penderfyniad, y credwch fod y cofnod yn y rhestr yn anghywir. Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth hon efallai na fydd y cynnig yn ddilys.

Blwch L os ydych yn ystyried bod y cyfeiriad, y disgrifiad neu unrhyw ddatganiad arall ynghylch yr eiddo y mae'n rhaid ei ddangos mewn rhestr ardrethu yn ôl y gyfraith yn anghywir neu wedi'i hepgor.

16 Defnyddiwch yr adran hon i roi eich rheswm/rhesymau manwl dros gredu bod rhestr ardrethu'n anghywir e.e. Ar gyfer blwch **15D**, gallech nodi mai'r rheswm yw bod rhan o'r eiddo wedi'i dymchwel, neu fod eiddo sydd newydd gael ei adeiladu wedi cael ei feddiannu gan gystadleuydd ac o ganlyniad bu newid yng ngwerth rhentu'r eiddo a nodir yn **Rhan A**.

RHAN D - Manylion y person sy'n cwblhau'r cynnig hwn:

Bydd cwblhau'r rhan hon o'r ffurflen yn helpu'r broses gyfathrebu rhyngoch chi, y swyddog prisio ac unrhyw barti arall a allai fod yn gysylltiedig â'ch cynnig. Felly, argymhellwn eich bod yn cwblhau'r rhan hon mor llawn â phosibl.

17 Ticiwch y blwch sy'n nodi ym mha swyddogaeth y gwneir y cynnig, h.y. yr un sy'n disgrifio eich cyfranogiad orau. Ticiwch un blwch yn unig. Os byddwch yn dewis **"Swyddogaeth Arall"** esboniwch natur y swyddogaeth yr ydych wedi llofnodi'r ffurflen.

18 Nodwch eich enw mewn **PRIFLYTHRENNAU**.

19 Dylid rhoi eich llofnod arferol o dan eich enw a rhoi'r dyddiad ar y ffurflen.

20 Nodwch y cyfeiriad llawn y dylid anfon gohebiaeth ato. Fodd bynnag os yw'r cyfeiriad hwn eisoes wedi'i nodi yn llawn yn **Rhan A**, nodwch *"fel blwch 1"* neu *"4"* neu *"8"*, fel y bo'n briodol.

21 Nodwch eich rhif ffôn yn ystod y dydd (gan gynnwys y cod STD llawn).

22 Nodwch eich rhif ffacs os oes gennych un.

23 Os hoffech gael gohebiaeth dros yr e-bost nodwch eich cyfeiriad e-bost, gan sicrhau ei fod yn glir ac yn gyflawn.

24 Cwblhewch yr adran hon gyda'r cyfeirnod (os o gwbl) yr hoffech iddo gael ei ddyfynnu mewn pob gohebiaeth yn y dyfodol.

SICRHEWCH EICH BOD WEDI CWBLHAU POB ADRAN BRIODOL CYN LLOFNODI'R FFURFLEN.

NODER BOD CYNNIG YN DDOGFEN GYHOEDDUS AC Y GALL UNRHYW UN EI HARCHWILIO. RHAID I'R SWYDDOG PRISIO HEFYD ANFON COPI O'CH CYNNIG AT UNRHYW DRETHDALWR ARALL YN YR EIDDO Y MAE EICH CYNNIG YN GYSYLLTIEDIG AG EF.